Dyddiad y Crëwyd:	13/06/18
Dyddiad y Cyhoeddwyd:	27/07/18
Rhif y Fersiwn:	1.00

Man Gwasanaeth:	Isadeiledd
Man Gweithio:	Rheoli Traffig - Meysydd Parcio
Manylion Cyswllt:	Rhif ffôn: 01443 866551 E-bost: meysyddparcio@caerffili.gov.uk
Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:	Defnyddwyr Meysydd Parcio / Ymgeiswyr Tocynnau Tymor
Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:	Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn egluro sut y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio'ch gwybodaeth fel defnyddiwr meysydd parcio a/neu os ydych chi'n gwneud cais am docyn tymor parcio.

Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

Diben y gwaith prosesu

Defnyddwyr Meysydd Parcio
Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio'r manylion cofrestru cerbydau rydych yn eu cynnwys yn ein peiriant tocynnau talu ac arddangos at ddibenion cyhoeddi tocyn talu ac arddangos dilys am y cyfnod amser a ddewiswyd gennych.

Pe na bai tocyn talu ac arddangos dilys yn cael ei arddangos neu pe bai unrhyw dramgwyddo arall yn cael ei arsylwi, bydd eich manylion cofrestru cerbyd yn cael eu defnyddio er mwyn cyhoeddi hysbysiad gordal. Bydd tystiolaeth ffotograffig o'r tramgwydd hefyd yn cael ei chymryd.

Os na chaiff hysbysiad gordal ei dalu o fewn y cyfnod amser penodedig, defnyddir eich manylion cofrestru cerbyd er mwyn cael manylion perchennog y cerbyd gan gynnwys manylion cyswllt gan yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau. Defnyddir manylion perchennog y cerbyd, gan gynnwys manylion cyswllt, at ddibenion casglu dyledion a allai olygu bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn rhannu'r wybodaeth hon ynghyd â manylion y ddyled i asiantaethau casglu dyledion trydydd parti. Bydd rhagor o wybodaeth am hyn yn cael ei ddarparu pan fydd yn berthnasol.

Ymgeiswyr Tocynnau Tymor
Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio'ch manylion personol a ddarparwyd gennych er mwyn prosesu'ch cais am docyn tymor parcio.

Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu

Gan weithredu fel yr Awdurdod Priffyrdd, mae gan CBSC rwymedigaeth statudol i brosesu eich gwybodaeth, fel y manylir isod:

- Mae angen yr wybodaeth i orfodi'r orchymyn rheoleiddio traffig a wnaed o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r Rheoliadau, a amlinellir isod:

1(e). mae angen prosesu ar gyfer cyflawni tasg a wnaed er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn y rheolwr;

Pwy fydd yn gallu cyrchu eich gwybodaeth?

Manylion y Rheolwr Data a Swyddog Diogelu Data

Y Rheolwr Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones
Y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: diogeludata@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolwyr Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth am ragor o wybodaeth.

Manylion prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth

Prif ddefnyddiwr eich gwybodaeth fydd Is-adran Rheoli Traffig Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Gall is-adrannau eraill yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wneud tasgau ar ran yr Is-adran Rheoli Traffig. Gall y rhain gynnwys:

- Yr Is-adran Incwm - A all brosesu taliadau a dderbynnir a delio ag adennill dyledion.
- Gwasanaethau Cwsmeriaid - A all brosesu taliadau a dderbynnir os gwneir wrth un o'n desgiau arian parod.

Gall yr holl gofnodion gael eu hadolygu gan Archwiliad Mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Manylion am unrhyw rannu o'ch gwybodaeth â sefydliadau eraill

Os na chaiff hysbysiad gordal ei dalu o fewn y cyfnod amser penodedig, defnyddir eich manylion cofrestru cerbyd er mwyn cael manylion perchennog y cerbyd gan gynnwys manylion cyswllt gan yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau. Defnyddir manylion perchennog y cerbyd, gan gynnwys manylion cyswllt, at ddibenion casglu dyledion a allai olygu bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn rhannu'r wybodaeth hon ynghyd â manylion y ddyled i asiantaethau casglu dyledion trydydd parti. Bydd rhagor o wybodaeth am hyn yn cael ei ddarparu pan fydd yn berthnasol.

Manylion am unrhyw broseswyr data allanol

Bydd Metric Group LTD yn prosesu manylion eich cerbyd, pan fyddwch yn defnyddio un o'n peiriannau tocynnau talu ac arddangos, ar ein rhan. Bydd prosesu data yn unol â'r cytundeb prosesydd data sydd ar waith.

Ceisiadau am wybodaeth

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Diogelu Data 1998.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

Manylion y cyfnod cadw

Mae'r cyfnod y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu trwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Defnyddwyr Meysydd Parcio
Cedwir eich gwybodaeth bersonol, a all gynnwys, lle bo'n berthnasol, eich manylion cofrestru cerbyd, manylion perchennog y cerbyd, gan gynnwys manylion cyswllt, tystiolaeth ffotograffig a gwybodaeth apeliadau am 7 mlynedd.

Ymgeiswyr Tocynnau Tymor
Cedwir eich gwybodaeth bersonol am gyfnod o 1 flwyddyn ar ôl i'r drwydded ddod i ben.

Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwynion)

Eich hawliau dan gyfraith Diogelu Data

Mae'r ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i wrthrychau'r data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun - mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: Ffurflen Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk.

Er mwyn datgan eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

Y Weithdrefn Gwynion

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth, y manylir arno ar frig y ddogfen hon, gan amlinellu eich pryderon.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dilynwch y ddolen hon am ragor o wybodaeth am y broses gwyno.

www.caerffili.gov.uk/My-Cyngor/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints